

## Disgrifiad Swydd Athletau Cymru

<b>Teitl y Swydd:</b>	Swyddog Datblygu Clybiau
<b>Yn atebol i:</b>	Pennaeth Datblygu a Chyfranogiad
<b>Lleoliad:</b>	De Cymru (swydd ranbarthol yn y maes) gyda'r brif swyddfa ar Gampws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd
<b>Cyfrifoldebau</b>	Cymorth i Glybiau, Datblygu Ysgolion ac Athletau
<b>Pwrpas Cyffredinol y rôl:</b>	Cefnogi clybiau i ddatblygu ac annog cynnydd rhaglen Moderneiddio Clybiau Athletau Cymru. Cefnogi ac alinio datblygiad athletau ar draws cymunedau allweddol Cymru

### Cyfrifoldebau Allweddol:

- Cyflawni amcanion allweddol Strategaeth Gweledigaeth ar gyfer Athletau yng Nghymru 2019 - 2026 ac adrodd yn rheolaidd ar y cynnydd i Bennaeth Gweithredol Datblygu a Chyfranogiad
- Cynorthwyo clybiau i weithredu a chyflwyno rhaglenni moderneiddio clybiau. Gweithio gyda chlybiau athletau allweddol ledled yr ardal i greu cynlluniau datblygu unigol, a chynorthwyo clybiau i gyflawni'r cynlluniau hyn
- Hyrwyddo arloesi a chydweithio o fewn yr ardal ranbarthol
- Ymdrechu i gynyddu aelodaeth clybiau yn unol â thargedau blynyddol a thrwy amrywiol raglenni ymyrraeth
- Arwain ar y gwaith o greu a gweithredu cynllun ar gyfer datblygu athletau yn yr ardal / rhanbarth dan sylw
- Datblygu, sefydlu a gweithredu rhwydwaith cyfathrebu gyda chlybiau, ysgolion, awdurdodau lleol a'r holl randdeiliaid allweddol yn yr ardal / rhanbarth dan sylw
- Cefnogi clybiau, gwirfoddolwyr, a rhanbarthau ysgolion i ddatblygu rhaglen gystadlu gynaliadwy
- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol a staff allweddol yr ALL i sefydlu amcanion cyffredin er mwyn hwyluso datblygiad athletau yn lleol
- Lle bo hynny'n briodol, gweithio gyda chlybiau i hwyluso cysylltiadau rhwng ysgolion a chlybiau er mwyn cynyddu aelodaeth y clybiau ac ymestyn cyfleoedd yn y maes athletau
- Cefnogi cyflwyniad rhaglen llythrennedd corfforol Athletau Cymru, Blocs Cychwyn, trwy weithio gyda chlybiau, Awdurdodau Lleol a darparwyr preifat
- Cefnogi fforwm Llais Athletwyr Iau, hwyluso gweithgareddau a phrosiectau a gaiff eu llywio gan y grŵp

- Cynnal gwerthoedd sefydliadol Athletau Cymru a chyfrannu at waith a lles y tîm staff

Mae'r swydd-ddisgrifiad hwn yn egluro prif bwrpas a phrif elfennau'r swydd. Mae'n ganllaw i natur a phrif ddyletswyddau'r swydd fel y maent ar hyn o bryd, ond nid fel rhestr gynhwysfawr na pharhaol y'i bwriedir.

## Pecyn Buddion

**Teitl y swydd** Swyddog Datblygu Clybiau (De Cymru)

Cyflog £ 19,000-24,000, pro-rata

**Cyfnod** contract tymor sefydlog o 6 mis

**Gwyliau** 12.5 diwrnod â thâl yn ogystal ag 8 diwrnod â thâl ar wyliau'r banc

**Oriau** Llawn amser (37 awr yr wythnos dros 7 diwrnod); tymor penodol mis Ionawr - mis Mehefin

Mae patrymau gweithio hyblyg ar gael, a bydd y rôl yn cynnwys gweithio rhai gyda'r nosau/ penwythnosau o fewn yr wythnos 37 awr

**Buddion eraill** Cynllun Pensiwn y Cwmni (cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol o hyd at 6%)

Parcio am ddim ar y safle yn ein swyddfeydd (NIAC, CISC, POD)

Cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa wedi'u hariannu

**Cyfnod rhybudd** Rhybudd o 1 mis

## PROFFIL PERSONOL

<b>CYFATHREBU</b>	Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig. Gallu ffurfio a datblygu cysylltiadau â phartneriaid allweddol. Ennill consesiynau heb niweidio cysylltiadau.
<b>YMWYBYDDIAETH STRATEGOL</b>	Meddu ar ymwybyddiaeth strategol a chadw agwedd wrthrychol tuag at y gwaith dan sylw ar yr un pryd. Agwedd hyblyg mewn amodau newidiol.
<b>BRWDFRYDEDD AC EGNU</b>	Ymrwymo i ddatblygiad athletau a meddu ar ymagwedd hyblyg at waith (noder: bydd y swydd hon yn golygu gweithio oriau anghymdeithasol). Parod i fynd i'r afael â heriau newydd a'u mwynhau. Hunan-gymhellol a gallu gweithio ar eich menter eich hun
<b>GWAITH TÎM</b>	Yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol at dîm staff ehangach a datblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol sy'n meithrin cynhyrchedd.
<b>CYNLLUNIO A PHENDERFYNIADAU GWNEUD</b>	Sgiliau trefnusrwydd a chynllunio amser rhagorol. Gallu blaenoriaethu llwyth gwaith. Trylwyr a rhesymegol yn eich dull o wneud penderfyniadau.

<b>UNIONDEB</b>	Gweithredu'n deg ac yn gyfiawn, yn foesebol ac yn onest. Trin eraill â pharch. Amddiffyn gwybodaeth gyfrinachol. Dibynadwy. Cadw at bolisiau ac yn dangos teyrngarwch i'r sefydliad.
<b>CANOLBWYNTIO AR Y CWSMER</b>	Canolbwyntio'n ddi-ildio ar y cwsmer a bod yn ymwybodol o'u hanghenion a'u disgwyliadau. Datblygu a chynnal cysylltiadau rhagorol gyda phartneriaid allweddol.
<b>PROFIAD A SGILIAU</b>	Sgiliau trefnusrwydd ardderchog a'r gallu i weithio ar eich liwt eich hun. Gallu gweithio'n agos gyda chydweithwyr a phartneriaid allanol i sicrhau canlyniadau. Gallu cyfrannu at y tîm datblygu yn wreiddiol ac yn hyderus ac awgrymu ffyrdd newydd a mwy craff o weithio. Byddai profiad o weithio ym maes Datblygu Chwaraeon yn fanteisiol.
<b>GOFYNIION PENODOL</b>	Paroddrwydd i weithio oriau afreolaidd ar adegau, gan gynnwys rhywfaint o waith dros y penwythnos. Dangos dealltwriaeth lawn o fentrau athletau allweddol a swyddogaeth corff llywodraethu chwaraeon Mae angen bod â char eich hun.
<b>SGILIAU TG</b>	Yn hyddysg mewn cyfrifiadura o ran defnyddio a llunio adroddiadau o gronfeydd data, chwilio a gwe-lywio'r rhyngwrdd ac yn fedrus ym meddalwedd graidd Microsoft Office.

## **Eisiau ymuno â'n tîm?**

Darllenwch y proffil rôl yn ofalus, yn enwedig yr addysg, y sgiliau a'r profiad hanfodol sy'n ofynnol er mwyn llwyddo cyn mynd i'n gwefan i gychwyn ar eich cais yn:

<https://welshathletics.peoplehr.net/JobBoard>

**Dyddiad cau ceisiadau:**

**Cynhelir y cyfweiliadau yng Nghaerdydd:**

Rydym yn cadw'r hawl i gau swyddi gwag cyn y dyddiad cau penodedig, pe derbynnir nifer fawr o geisiadau. Gwnewch gais yn gynnar i osgoi cael eich siomi.

Rydym yn penodi gyda system agored a gonest sy'n seiliedig ar arferion gorau presennol ac os oes arnoch chi angen unrhyw gymorth i gwblhau eich cais neu os oes arnoch chi angen fformat gwahanol, cysylltwch â: **Rob Sage** - [Rob.sage@welshathletics.org](mailto:Rob.sage@welshathletics.org)

**Sylwer**, rydym yn ymrwymo i **ddiogelu** a hyrwyddo **lles** plant a phobl ifanc ac yn disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

Rydym yn ymrwymo i **gynhwysiant** ac yn croesawu ysbryd pob deddfwriaeth **cydraddoldeb**. Lle bo modd, byddwn bob amser yn barod i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau hygyrchedd i unrhyw un sydd ei angen.

Nid oes modd i ni gynnig nawdd fisa ac mae'n rhaid bod gan bob ymgeisydd **hawl i weithio yn y DU** er mwyn gwneud cais a chael eich ystyried ar gyfer y swydd hon. Os nad ydych chi'n un o wladolion y Deyrnas Unedig/ UE, rhaid bod gennych chi fisa gwaith priodol er mwyn bod yn gyflogedig.

Bydd eich **data personol** yn cael ei gadw am hyd at ddwy flynedd a'i ddefnyddio i ddibenion recriwtio Athletau Cymru yn unig, er mwyn rhoi gwybod i chi am swyddi gwag newydd neu ei brosesu'n unol â swydd wag y byddwch yn gwneud cais amdani yn y dyfodol.

Ni fyddwn byth yn rhoi eich manylion i drydydd parti. I ddysgu mwy am ein dull o barchu eich preifatrwydd, ewch i'n tudalen ar [Breifatrwydd, Cwcis a Hawlfraint](#). I gael mwy o wybodaeth am Athletau Cymru, ewch i'n gwefan a thudalen '[Amdanom Ni](#)'.